



CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

**ARIENNIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED**

**EIN
DYFODOL
DISGLAIR
OUR
BRIGHT
FUTURE**



Our Bright Future

www.ourbrightfuture.co.uk/cy

'Pobl ifanc; mae ots ganddyn nhw. Maen nhw'n gwybod mai hwn ydi'r byd maen nhw'n mynd i dyfu i fyny ynddo, maen nhw'n mynd i dreulio gweddill eu bywydau ynddo. Maen nhw wir yn credu nad oes gan ddynoliaeth hawl i ddinistrio a difetha'n ddifeddl.'

- David Attenborough

Beth yw Our Bright Future?

Mae Our Bright Future yn bartneriaeth uchelgeisiol ac arloesol sy'n cael ei harwain gan yr Ymddiriedolaethau Natur ac mae'n dod â'r sectorau ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd. Mae'r rhaglen hon gwerth £33 miliwn, sy'n cael ei chyllido gan y Loteri Genedlaethol drwy gyfrwng y Gronfa Loteri Fawr, yn cynnwys 31 o brosiectau ledled y DU, sy'n weithredol am hyd at bum mlynedd. Mae pob prosiect yn helpu pobl ifanc 11 i 24 oed i ddysgu sgiliau a phrofiad hanfodol, ac yn gwella eu lles. Ar yr un pryd, maent yn gweithredu fel catalyddion i greu newid yn eu hamgylchedd lleol a'u cymuned; gan gyfrannu at economi wyrddach.





Beth yw ein gweledigaeth?

Ein gweledigaeth yw i bobl ifanc berchnogi'r hyn maent yn ei haeddu: planed iach, economi wyrddach ffyniannus a dyfodol disglair. Nod sylfaenol ein holl weithgareddau yw grymuso ac ysbrydoli 60,000 o bobl ifanc i wneud eu dyfodol yn fwy disglair ac arwain newid cynyddol yn eu cymunedau.

Rydyn ni eisiau gweld:

- cyfleoedd ffres parhaus i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad newydd, cynyddu eu cyflogadwyedd a gwella eu lles
- economi wyrddach sy'n effeithlon o ran adnoddau yn gyflogaeth a ffafrir gan bobl ifanc
- gofod lleol naturiol a ddefnyddir yn dda gan y gymuned gyfan
- newidiadau parhaus positif fel bod gan bobl ifanc lais yn y penderfyniadau a wneir yn yr amgylchedd ar lefel leol a chenedlaethol



ARIENIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED



EIN
DYFODOL
DISGLAIR
OUR
BRIGHT
FUTURE



Beth sy'n wahanol am y rhaglen hon?

1. Y Fforwm Ieuencid

Pobl ifanc sydd wrth galon y rhaglen. Mae'r Fforwm Ieuencid yn cynnwys dau berson ifanc o bob un o'r 31 o brosiectau sy'n rhan o Our Bright Future. Mae aelodau'r Fforwm Ieuencid yn gweithredu fel cynrychiolwyr ar gyfer y prosiectau, gan rannu a thrafod syniadau. Maent yn cydweithio i lywio'r rhaglen. Mae aelodau'r Fforwm Ieuencid yn cyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn. Dyma gyfle gwych iddynt gyfarfod pobl ifanc debyg iddynt hwy eu hunain o bob cwr o'r wlad. Hefyd maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn. Mae bod yn rhan o'r Fforwm Ieuencid yn gyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau bywyd, gwella eu CV, eirioli ar ran pobl ifanc eraill a'r amgylchedd, a bod yn llais ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

2. Dull portffolio o weithredu

Mae'r cyfanwaith yn bwysicach na'r elfennau unigol. Mae rhannu gwybodaeth a dysgu ar draws Our Bright Future yn cael ei hybu. Daw'r prosiectau at ei gilydd wyneb yn wyneb ac ar-lein i rannu arfer gorau ac i gyfrannu at gyfeiriad y rhaglen yn gyffredinol, yn benodol, ei gwaith yn gwerthuso ac yn dylanwadu ar bolisiâu.

3. Tystiolaeth gadarn

Mae gwerthusiad parhaus a gomisiynwyd yn annibynnol yn casglu tystiolaeth o effaith y 31 o brosiectau ar y cyd a sut gall pobl ifanc weithredu fel catalyddion ar gyfer creu newid er lles yr amgylchedd a'u cymunedau lleol. Bydd yr arfer da a'r gwersi a ddysgir yn sylfaen o dystiolaeth i herio penderfyniadau ledled y DU ac i ysgogi ffordd newydd o feddwl.



ARIENIR GANY
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED



Prosiectau Our Bright Future

Yn amrywio o ran graddfa, o ffocws lleol i lefel genedlaethol, mae prosiectau Our Bright Future yn seiliedig ar y themâu allweddol canlynol:

- gweithredu amgylcheddol
- ymgyrchu amgylcheddol
- hyfforddiant galwedigaethol
- mentrau cynaliadwy
- cyfleoedd dylanwadu ac arweinyddiaeth ieuenctid

Mae'r prosiectau'n hynod amrywiol ac yn rhoi sylw i faterion a heriau niferus a wynebwr gan bobl ifanc. O berllannau cymunedol i gelfyddydau amgylcheddol a datblygu ymgyrchoedd lleol, mae pob prosiect yn creu newid positif yn ei amgylchedd lleol a'i gymuned leol.



Beth ddywedodd pobl ifanc prosiectau Our Bright Future wrthym ni:



Georgia-Elizabeth, 19,
Tomorrow's Natural Leaders
project

'Rydw i wedi bod â diddordeb erioed mewn cadwraeth morfilod. Ond rydw i wedi cael anhawster dysgu mewn amgylchedd academiaidd. Fe arweiniodd hyn at hunanamheuaeth difrifol oedd yn llesteirio fy nyhead i i lwyddo. Yn fy nghyfarfod cyntaf yn Ymddiriedolaeth Natur Swydd Efrog (YWT), roeddwn i'n teimlo'n bositif. O fewn y mis cyntaf, roeddwn i'n cynorthwyo mewn digwyddiadau, yn addysgu'r cyhoedd ac ysgolion am fywyd y môr.

Hyd yma, mae'r profiad wedi bod yn anhygoel. Rydw i wedi cwblhau fy nghymhwyster arolygu mamaliaid y môr – ORCA – ac nid yn unig ydw i wedi cael cyfle i ehangu fy ngwybodaeth forol, ond hefyd rydw i wedi cael cyfleoedd anhygoel i roi cynnig ar bethau newydd! Fe wnes i ymuno â'r prosiect yma'n ansicr ynghylch sut i gyrraedd fy nodau ond, wrth weithio gydag YWT, rydw i wedi cael cynnig diamod i astudio Gwyddoniaeth y Môr gyda Chymdeithas yr Alban ar gyfer Gwyddoniaeth y Môr yn Oban, yr Alban, ac wedi profi i mi fy hun bod posib i mi wneud hynny!'



ARIENIRGAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED





Sam, 19, Prosiect Putting Down Roots for Young People

Roedd Sam yn cysgu ar y stryd ar ôl i'w deulu chwalu. Dywedodd: 'Roeddwn i'n paranoid am fy mod i'n ddigartref; roedd yn brofiad anghynnes i mi.' Cafodd fynd i fyw at ffrind i'r teulu ac ar ôl blwyddyn o aros yno, daeth y cynnig i ben. Doedd Sam ddim yn gallu meddwl am gysgu ar y stryd eto felly trodd at y cyngor.

Erbyn hyn mae gan Sam ei fflat ei hun ac mae wedi bod yn byw yno am saith mis. Nawr bod gan Sam gartref diogel, mae wedi gweld ei fod yn hoff iawn o arddio ac mae'n dod i'r rhandir unwaith yr wythnos. Dywedodd: 'Rydw i'n dysgu llawer. Rydw i'n cael trafferth bod yn llonydd felly rydw i'n gallu cadw'n brysur ar y rhandir. Rydw i wrth fy modd. Rydw i'n astudio Lefel Un mewn Garddwriaeth ac yn gobeithio dilyn Lefel Dau a Thri hefyd. Rydyn ni wedi bod yn plannu moron, cêl, tatws a pherlysiau. Rydyn ni'n gobeithio coginio stiw enfawr gyda'r cynhaeaf.'

Mae Sam yn fachgen talentog felly beth sydd nesaf i Sam? 'Rydw i'n gweld garddio fel fy nyfodol,' meddai.

Sut gallwch chi ddal ati i gymryd rhan?

Our Bright Future yw'r bartneriaeth gyntaf sy'n dod â'r sectorau ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd ar raddfa fawr. Mae genym ni lawer o gyfleoedd i gymryd rhan yn Our Bright Future. Os ydych chi'n berson ifanc sydd â diddordeb mewn prosiect penodol neu'n lluniwr polisïau, arweinydd busnes neu sefydliad anllywodraethol ac eisiau gwybod mwy am y rhaglen, byddem yn hoffi clywed gennych chi!



Uchafbwyntiau hyd yma...

- Mwy na 50,000 o bobl ifanc wedi ymwneud â'r rhaglen
- O fewn dim ond mis yn 2017 cyrhaeddodd #OurBrightFuture fwy na miliwn o gyfrifon Twitter
- Ymddiriedolaeth Natur Swydd Efrog ac Ymddiriedolaeth y Mileniwm Cymoedd Swydd Efrog ag ymddiriedolwyr ifanc nawr
- 2,000 o boteli plastig wedi'u hailddefnyddio yn Hill Holt Wood i adeiladu dau dŷ gwydr
- 24 o ymgyrchoedd dan arweiniad ieuenctid wedi'u cynnal yn Birmingham, Llundain a Manceinion yn edrych ar faterion sy'n cynnwys llygredd aer

Cyfarfod Prosiectau Our Bright Future

Prif Sefydliad Darparu

Down to Earth

Probe

Belfast Hills Partnership Trust

Cornwall Wildlife Trust

North Wales Wildlife Trust

RNIB

Shropshire Wildlife Trust

Centre for Sustainable Energy

Groundwork UK

National Trust

Ulster Wildlife

Feedback and Foodcycle

Falkland Stewardship Trust

UnLtd

Yorkshire Dales Millennium Trust

Middlesbrough Environment City

Hill Holt Wood

Avon Wildlife Trust

Impact Arts

Blackburne House

Lancashire Wildlife Trust

Friends of the Earth

UpRising

Learning Through Landscapes

Yorkshire Wildlife Trust

National Youth Agency

vInspired

Wiltshire Wildlife Trust

Groundwork London

St Mungo's

National Union of Students

Enw'r Prosiect

Building Sustainable Communities

Youth In Nature

Belfast Hills Bright Future

Your Shore Beach Rangers

Our Wild Coast

Vision England

Growing Confidence

Bright Green Future

Green Leaders

Green Academies Project (GAP)

Grassroots Challenge

From Farm to Fork

Fife's Environmental Champions

Spaces 4 Change

Green Futures

One Planet Pioneers

Growing Up Green

Natural Estates

Creative Pathways Environmental Design

BEE You

Myplace

My World My Home

Environmental Leadership Programme

Fruitfull Communities

Tomorrow's Natural Leaders

The Environment Now

Eco-Talent

Milestones

Welcome to the Green Economy

Putting Down Roots for Young People

Student Eats

Cyfarfod y partneriaid

Mae Our Bright Future yn cael ei gweithredu gan bartneriaeth o wyth sefydliad dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur. Mae gan y bartneriaeth fwy na 40 mlynedd o brofiad rhyngddynt o reoli rhaglenni grantiau cymdeithasol ac amgylcheddol gwerth cyfanswm o bron i £300 miliwn. Ein sefydliadau partner yw'r Centre for Sustainable Energy, The Conservation Volunteers, Field Studies Council, vInspired, Ymddiriedolaeth y Mileniwm Cymoedd Swydd Efrog, Cyfeillion y Ddaear ac UpRising.



'Mae gan bob cenhedlaeth yr hyn sydd ei angen i greu newid positif. Dim ond cael hyder a chefnogaeth i wneud hynny sy'n bwysig. Dyna holl nod y rhaglen – annog creadigrwydd, ysbrydoliaeth a chadernid yn ein pobl ifanc ni. Ac yn wyneb heriau amgylcheddol cynyddol, mae hynny'n bwysicach nag erioed.'

- Stephanie Hilborne OBE, Prif Weithredwr, Yr Ymddiriedolaethau Natur



ARIENNIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED



'Nod Our Bright Future yw datgloi uchelgais pobl ifanc ledled y DU i sicrhau cyfraniad personol a chasgliadol at wneud ein hamgylchedd yn well, yn hapusach ac yn gadarnach yn wyneb bygythiadau fel newid hinsawdd a gwastraffu adnoddau naturiol'

- Peter Ainsworth, Cadeirydd, Y Gronfa Loteri Fawr

Cysylltu â'r tîm

www.ourbrightfuture.co.uk/cy

ourbrightfuture@wildlifetrusts.org

01636 670000

Cyfyngau cymdeithasol: @obrightfuture

Yr Ymddiriedolaethau Natur,
The Kiln, Waterside, Mather Road, Newark,
Swydd Nottingham, NG24 1WT
Rhif Cofrestru'r Elusen: 207238

Cydnabyddiaeth am y lluniau: tud1 @MarkAlexander, tud2 @ShropshireWildlifeTrust, tud3 @EllieWintle, tud4 @vInspired, tud5 @BelfastHills, tud6 @BlackburneHouse, tud7 @MattEvans, tud8 @StMungo's, tud9 @DilysThompson, tud10 @JaneWarman

Efallai bod rhai enwau yn y cyhoeddiad yma wedi cael eu newid er mwyn gwarchod pwyl yw'r bobl ifanc.